**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13eg Mai 2013**

**YMGYNGYNGHORIAD AR Y COD YMARFER A ARGYMHELLIR DIWYGIEDIG AR GYFER CYHOEDDUSRWYDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gwahoddir yr Aelodau i gymeradwyo ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer a Argymhellir Diwygiedig ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru (y Cod). Atodir yr ymateb fel atodiad 1 a'r Cod fel atodiad 2.

## Cefndir

2 Mae'r Cod yn rhoi canllawiau ar gynnwys, arddull, dosbarthiad a chost cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol. Yn ôl deddfwriaeth mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad ar gyhoeddusrwydd, a ddiffinnir fel unrhyw gyfathrebu a wneir, ar ba ffurf bynnag, â'r cyhoedd yn ei gyfanrwydd neu â rhan o'r cyhoedd.

3 Cyhoeddir y Cod yn sgil pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol 1986. Cynhyrchwyd y Cod Cyhoeddusrwydd presennol yn 2001. Cyn cyhoeddi, adolygu neu ddiddymu cod, mae'n ofynnol yn ôl Adran 4 (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 ymgynghori ag awdurdodau lleol a'u cysylltiadau.

**Gwybodaeth**

4 Mae'r Cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a ddigwyddodd ers ei gyhoeddi yn 2001. Yn bennaf mae'r newidiadau hyn yn diweddaru'r Cod i gyfeirio at ddarpariaethau statudol perthnasol, heb gynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig a orfodir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o weithredu'r cod hwn, ac i ychwanegu canllawiau ar ffilmio a darlledu cyfarfodydd y cyngor. Mae'r Cod diwygiedig yn berthnasol i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau tân ac achub a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

5 Fel yn achos y Cod presennol, mae'r Cod diwygiedig yn rhoi'r ymarfer a argymhellir ar gyfer nifer o agweddau ar gyhoeddusrwydd sy'n cwmpasu pwnc, costau, cynnwys ac arddull, dosbarthu, hysbysebu, recriwtio, cyhoeddusrwydd am aelodau unigol o awdurdod, etholiadau, refferenda a deisebau, ac yn darparu cyhoeddusrwydd am gymorth i eraill.

6 Mae'r Cod diwygiedig yn cynnwys canllawiau penodol ar:
- gyhoeddi adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig. Ystyrir fod hyn y tu allan i sgôp y Cod hwn. Cyhoeddir canllawiau penodol ar wahân mewn perthynas â chyhoeddi adroddiadau blynyddol;
- cynhyrchu papurau newyddion y cynghorau; a
- darlledu cyfarfodydd y cynghorau.

7 Mae ymateb yr Awdurdod yn mynegi ei gefnogaeth i'r Cod diwygiedig, ac yn arbennig i'r ffaith fod cysondeb â chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Materion eraill a godwyd yn yr ymateb yw'r goblygiadau o ran y gost o ffilmio a darlledu cyfarfodydd, ond hefyd cost a budd defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon diogelwch tân ac mewn ymgyrchoedd recriwtio.

8 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r ymateb sydd i'w weld yn atodiad 1.

Atodiad 1

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y COD YMARFER A ARGYMHELLIR DIWYGIEDIG AR GYFER CYHOEDDUSRWYDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU**

**A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru?**

Rydym yn fodlon gyda'r diwygiadau i'r Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Rydym yn croesawu'n arbennig y ffaith fod y Cod yn gyson â chanllawiau eraill gan Lywodraeth Cymru heb ddyblygu'r canllawiau hynny, e.e. ar Gynllunio i Wella, y Gymraeg a Chydraddoldeb.

**A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi mewn perthynas â'r cynigion hyn, neu'n fwy cyffredinol yn y maes hwn?**

Er bod paragraff 17 yn cyfeirio at yr angen i dalu sylw i Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid yw'n cydnabod y goblygiadau anochel o ran y gost sy'n gysylltiedig â sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni'r gofynion hyn. Hefyd, bydd effaith ar gostau o ganlyniad i orfod cael grwpiau ffocws i geisio barn ar y ffyrdd gorau o drafod â'r rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Cod yn annog y defnydd o Twitter a Facebook i gyfathrebu mewn cyfarfodydd, ond nid yw'n mynd cyn belled â dweud y gallai awdurdodau lleol eu hunain fod ar eu hennill o fod yn fwy agored a thrydaru o gyfarfodydd cyhoeddus. Paratowyd protocol ar y cyd ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasu mewn cyfarfodydd rhwng y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ac yng nghyfarfod blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, bydd gofyn i Aelodau fabwysiadu protocol tebyg.

Eto, mae'r Cod yn annog awdurdodau i ffilmio a darlledu cyfarfodydd ond nid yw'n cyfeirio at y gost o wneud hyn ar adeg pan fo awdurdodau'n ceisio gweithredu o fewn cyllidebau a gwneud arbedion ymhob agwedd ar eu gwaith.

Er bod cyfeiriad yn y Cod at gostau a buddion defnyddio deunydd ar y rhyngrwyd, er enghraifft ar wefannau, drwy e-bost a thrydaru, nid ymddengys fod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi o ba mor werthfawr yw'r cyfryngau cymdeithasu fel erfyn cyfathrebu, a'r bod cost a budd yn dod wrth godi ymwybyddiaeth a hefyd drwy eu defnyddio yn hytrach na hysbysebion traddodiadol. Yn ddiweddar, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu yn ystod ymgyrch recriwtio fawr a fu'n llwyddiannus iawn.